SESIWN 2: Y STRAEON SY'N GEFNDIR I'R LLUNIAU

Ystod oedran: 5-8 oed **Amser: 1 awr**

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn cydweithio fel dosbarth i greu map testun gyda symudiadau i adrodd y stori sy'n gefndir i lun. Yna, byddant yn gweithio mewn grwpiau bach i greu eu mapiau testun eu hunain ar gyfer llun arall o'u dewis.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu

• Ystyried sut i gofio ac i ailadrodd stori gan ddefnyddio symbolau a symudiadau.
• Pwyso a mesur pwysigrwydd geiriau, ymadroddion a manylion allweddol i greu naratif da.</td><td>Deilliannau dysgu

• Bydd y dysgwyr yn darganfod sut i ddethol y geiriau a'r ymadroddion allweddol sy'n rhoi manylion pwysicaf testun.
• Bydd y dysgwyr yn mynd ati i greu map testun gan ddefnyddio symbolau i gynrychioli'r geiriau a'r ymadroddion allweddol.
• Bydd y dysgwyr yn creu symudiadau i bwysleisio'r geiriau a'r ymadroddion allweddol mewn stori.
• Bydd y dysgwyr yn perfformio eu stori i eraill gan ddefnyddio'u mapiau testun.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol

• Pa stori a allai fod yn gefndir i'r llun?
• Pa eiriau neu ymadroddion y mae angen eu pwysleisio wrth ailadrodd y stori sy'n gefndir i'r llun?
• Pa symbol a allai gynrychioli'r gair neu'r ymadrodd hwnnw?
• Pa symudiad a allai gynrychioli'r gair neu'r ymadrodd hwnnw?</td><td>Adnoddau

• Straeon i'w trin a'u trafod
• Sioe sleidiau: sleidiau 9 i 17
• Map testun</td></tr>
</table>

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Amlinelliad o'r gweithgareddau

Tasg gychwynnol *(10 munud)*
Beth yw'r stori?

- Dangoswch sleid 10 ac ewch ati i drin a thrafod y llun fel partneriaid siarad ac yna fel dosbarth, gan ddefnyddio'r cwestiynau a ganlyn i sbarduno'r drafodaeth:
    - Pwy yr ydych yn meddwl yw'r bobl hyn?
    - Ble'r ydych yn meddwl y gallai'r bobl hyn fod?
    - Beth yr ydych yn meddwl y mae'r bobl hyn yn ei wneud?
    - Pam yr ydych yn meddwl eu bod yn gwneud hyn?
    - Pryd yr ydych yn meddwl y cafodd y llun ei dynnu?
- Dewch â'r dosbarth ynghyd eto ac ewch ati i gasglu adborth gan y dysgwyr. Rhowch ychydig o gefndir y lluniau (gweler y Trosolwg i Athrawon) ac eglurwch fod y llun hwn wedi'i dynnu oherwydd ei fod yn dangos rhywbeth sy'n bwysig i'r person ifanc a dynnodd y llun. Yn aml, bydd stori'n gefndir i lun.
- Darllenwch y stori sy'n gefndir i'r llun i'r dysgwyr, gan ddefnyddio *Straeon i'w trin a'u trafod 1* neu sleid 11.

Gweithgaredd 2.1 *(15 munud)*
Mapio testun fel dosbarth

- Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i greu 'map testun' a fydd yn eu helpu i gofio'r stori sy'n gefndir i'r llun. Os byddwch yn bwrw ymlaen i wneud mwy o waith fel rhan o'r gweithgaredd hwn, bydd hefyd yn eu helpu â'u gwaith ysgrifennu. Dangoswch sleid 12 i'r dysgwyr.
- Fel dosbarth cyfan, dechreuwch greu map testun ar ddalen fawr o bapur. Yn gyntaf, nodwch brif ddigwyddiadau'r stori (cam 1). Yna (cam 2), trafodwch pa symbolau y gallech eu defnyddio ym mhob rhan o'r map testun i gynrychioli'r digwyddiadau hyn, a nodwch unrhyw eiriau neu ymadroddion allweddol (gweler yr enghraifft ar sleid 13). Eglurwch sut y gall gwneud symudiadau wrth ailadrodd stori helpu i ennyn sylw'r gwrandäwr a'ch helpu chi i gofio'r stori. Fel dosbarth, cytunwch ar rai symudiadau a fydd yn eich helpu i gofio'r map testun (cam 3).
- Gyda dysgwyr iau, efallai y byddwch am greu'r map testun gyda'ch gilydd mewn grŵp mwy o faint. Gall dysgwyr hŷn greu eu mapiau testun eu hunain ar gyfer y stori ar ôl i'r athro fodelu'r camau cynnar. Defnyddiwch y cwestiynau a ganlyn i danio syniadau ar gyfer pob cam yn y broses:
    - Beth yw'r prif ddigwyddiadau y mae angen eu dangos ar y map testun?
    - Pa symbolau allai gynrychioli'r digwyddiadau hynny?
    - Pa symudiadau y byddai modd eu defnyddio i'n helpu ni i gofio prif rannau'r testun?

Gweithgaredd 2.2 *(25 munud)*
Mapio testun mewn grwpiau bach

- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach o hyd at chwe dysgwr â gallu cymysg, a rhowch fap testun gwag iddynt.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Darllenwch *Straeon i'w trin a thrafod 2* a *3* i'r dosbarth (mae'r rhain ar sleidiau 14 i 17 hefyd). Gofynnwch i bob grŵp o ddysgwyr gytuno ar ba un o'r ddwy stori i'w mapio.
- Gofynnwch i'r dysgwyr weithio fel grŵp a dilyn y broses dri cham a ddangoswyd yng nghamau 1-3 o Weithgaredd 2.1 i greu map testun â symudiadau ar gyfer y llun o'u dewis.

Gwahaniaethu
Gwneud pethau'n haws: Dewiswch un o'r straeon i'r dosbarth cyfan weithio arni. Ar ôl trafod, gofynnwch i bob grŵp lunio eu map testun ar sail y model a luniwyd ar y cyd.

Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am rai geiriau, ymadroddion a geirfa ychwanegol y byddent yn eu defnyddio i ailadrodd y stori. Anogwch y dysgwyr i feddwl am y geiriau a'r strwythurau ieithyddol a fyddai'n effeithio fwyaf ar y gynulleidfa o'u dewis.

Sesiwn lawn (10 munud)

- Gofynnwch i bob grŵp berfformio ei fap testun i weddill y dosbarth er mwyn adrodd y stori sy'n gefndir i'r llun a ddewiswyd ganddo.

Syniadau pellach

Mae mapio testun yn y ffordd hon yn arwain yn naturiol at ysgrifennu. Mae'n caniatáu i'r dysgwyr feithrin dealltwriaeth o strwythur a phatrymau ieithyddol testun, ac felly mae'n bwysig neilltuo digon o amser iddynt ymgyfarwyddo â'u mapiau testun a'u defnyddio i ailadrodd y naratif. Efallai y byddwch chi am i'r gweithgaredd hwn arwain at weithgareddau ysgrifennu mwy penodol ar sail y lluniau.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Straeon i'w trin a'u trafod 1: Gŵyl Blwyddyn Newydd y Lleuad

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: H Dary / Dan tộc / Grŵp ethnig: M'Nong / Trường Tiểu học Le Văn Tam, Huyện Krong No, tỉnh Đăk Nong

Yn y llun hwn, mae fy mam-gu a'm modryb gartref yn paratoi ar gyfer dathliadau'r Flwyddyn Newydd. Gŵyl Blwyddyn Newydd y Lleuad, neu Ŵyl Tet, yw gŵyl bwysicaf Fiet-nam. Mae'n para sawl diwrnod ac mae pawb yn treulio amser yn paratoi ar ei chyfer. Rydym yn glanhau ac yn ysgubo ein cartrefi. Rydym yn addurno'r tŷ â llawer o flodau, yn enwedig blodau eirin gwlanog. Rydym yn coginio llawer o fwydydd arbennig. Mae pobl am ddechrau'r Flwyddyn Newydd mewn ffordd dda, felly maen nhw'n ceisio datrys dadleuon cyn i'r dathliadau ddechrau.

Mae fy mam-gu a'm modryb yn paratoi cacennau reis gludiog. Maent yn lapio siwgr, pysgnau, ffa duon a phorc mewn dail banana. Maent yn defnyddio llinynnau bambŵ i glymu'r dail banana. Ar ôl lapio'r cacennau, maent yn eu rhoi mewn pot i'w coginio. Rydw i wrth fy modd yn gwneud y cacennau hyn. Er nad ydynt yn edrych yn neis iawn, yn enwedig pan fyddwn yn rhoi'r llenwadau yn y dail a'u lapio, maent yn blasu'n fendigedig. Dydy hi ddim yn hawdd gwneud cacennau reis oherwydd gall dŵr fynd i mewn iddynt ac wedyn maent yn rhy feddal.

Rydw i wedi dewis y llun hwn oherwydd fy mod i'n caru fy mam-gu a'm modryb yn fawr iawn. Mae Gŵyl y Flwyddyn Newydd yn adeg hapus iawn. Mae teuluoedd yn dod ynghyd, ac mae ffrindiau a chymdogion yn ymweld â'i gilydd. Mae llawer o bobl yn mynd i'r Deml i weddïo am flwyddyn ddiogel a hapus.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Straeon i'w trin a'u trafod 2: H'Gun ac Y Pha

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: H Dary / Dan tộc / Grŵp ethnig: M'Nong / Trường Tiểu học Le Văn Tam, Huyện Krong No, tỉnh Đăk Nong

Mae'n rhaid i blant Fiet-nam weithio'n galed o oedran ifanc, yn yr ysgol ac yn y cartref. Yn y llun hwn, mae dau o'm ffrindiau, H'Gun, sy'n ddeg oed, ac Y Pha, sy'n chwech oed, yn helpu i dyfu coffi. Maent yn dechrau trwy roi pridd mewn bagiau bach. Mae hi fel arfer yn cymryd munud neu ddwy i lenwi bag. Ar ôl iddynt lenwi'r bagiau â phridd, maent yn eu dyfrhau. Yna, maent yn gwthio ffon fach trwy'r bag er mwyn i'r dŵr ddraenio trwy'r twll. Mae hyn yn gryn dipyn o waith, ond mae'n hwyl. Mae llawer o bobl yn gweithio gyda'i gilydd ac mae'n teimlo fel pe baen ni'n chwarae yn y pridd.

Yna, rydym yn plannu'r bagiau â'r eginblanhigion coffi ynddynt, ac rydym yn eu dyfrhau'n ofalus dros y tri neu bedwar mis nesaf. Pan fydd yr eginblanhigion yn barod, byddwn yn mynd â nhw i'r cae i'w plannu, neu efallai y byddwn yn eu gwerthu i'n perthnasau i ennill ychydig mwy o arian i'r teulu. Fel arfer, bydd coffi'n cael ei dyfu ar ffermydd teuluol bach. Bydd yn cael ei blannu yn y caeau yn ystod tymor y glawogydd, tua mis Mai a mis Mehefin, pan fydd digonedd o law i helpu'r planhigion i dyfu. Bydd y ffa coffi coch aeddfed yn cael eu cynaeafu rhwng mis Hydref a mis Ionawr. Mae'r rhan fwyaf o goffi Fiet-nam yn cael ei werthu i wledydd eraill. Fiet-nam yw'r allforiwr coffi mwyaf ond un yn y byd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Straeon i'w trin a'u trafod 3: H'Luong

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: H En / Dan tộc / Grŵp ethnig: M'Nong / Trường THCS Nam Nung / Huyện Krong No, tỉnh Đak Nong

Yn Fiet-nam, bydd plant yn aml yn dechrau gweithio a helpu'r teulu o oedran ifanc. Erbyn iddynt droi'n saith oed, efallai y byddant yn gofalu am anifeiliaid neu am eu brodyr a'u chwiorydd iau. Yn y llun hwn, mae H'Luong, sy'n naw oed, yn helpu ei theulu trwy hidlo reis.

Mae reis yn cael ei gynaeafu ddwywaith y flwyddyn. Ar ôl cynaeafu'r planhigion reis, bydd y grawn yn cael ei wahanu oddi wrth weddill y planhigyn. Dyrnu yw'r enw ar hyn. I ddyrnu reis, bydd y grawn sych yn cael eu troi a'u trosi mewn basgedi gwiail mawr i wahanu'r grawn reis oddi wrth y plisg allanol.

Mae pobl sy'n byw yn y ddinas yn gallu mynd i'r archfarchnad i brynu pecyn o reis, ond mae'n rhaid i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad Fiet-nam baratoi'r reis eu hunain. Weithiau, byddaf yn gweld teuluoedd cyfoethocach yn gwastraffu bwyd. Efallai y byddant yn taflu reis dros ben i ffwrdd. Mae'r rhan fwyaf o'r teuluoedd yng nghefn gwlad yn cadw reis dros ben i'w fwyta'n ddiweddarach neu i'w fwydo i'w cŵn neu eu hieir.

Reis yw cnwd bwyd mwyaf y byd a phrif fwyd hanner pobl y byd. Ni ddylai pobl ei wastraffu oherwydd mae tyfu'r cnwd yn llawer o waith.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Map testun

Mapio'r testun/Mapio ein bywydau/Diwrnod ym mywyd ...

Cyflwyno'r bobl



Pwy?

Cyflwyno'r lle



Ble?



Pryd? Pam?

Beth?

Y prif ddigwyddiadau

Rydw i'n meddwl ...

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM